

SL(5)673 – Rheoliadau Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr a Materion Gwledig (Diwygiadau Amrywiol etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio cyfraith yr UE a ddargedwir a chyfraith ddomestig sy'n llywodraethu cynlluniau taliadau uniongyrchol ar gyfer sicrhau parhad cynllun y taliad sylfaenol yng Nghymru y tu hwnt i 2020 a sicrhau ei fod yn effeithiol ac yn effeithlon.

Mae'r Offeryn hefyd yn diwygio'r ddeddfwriaeth hon i:

- symleiddio dull gweinyddu'r cynllun a gwneud ei weithrediad yn fwy effeithlon ac effeithiol;
- dileu darpariaethau sydd wedi darhod neu nad ydynt yn cael eu defnyddio;
- dileu neu leihau'r beichiau ar bersonau sy'n gwneud cais am daliadau uniongyrchol o dan y cynllun;
- gwella'r ffordd y mae'r cynllun yn gweithredu;
- sicrhau bod sancsiynau a chosbau a osodir o dan y cynllun yn briodol a chymesur;
- cyfyngu ar gymhwysiad y cynllun i dir yng Nghymru yn unig.

Yn ogystal â hynny, mae'r Rheoliadau yn gwneud diwygiadau i fynd i'r afael â methiannau cyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd, ac i gywiro gwallau mewn offerynnau statudol presennol sy'n ymwneud ag ymadael â'r UE.

Daw Rhannau 1, 5 a 6, a rheoliad 7(4) o'r Rheoliadau hyn i rym ar y diwrnod ar ôl y diwrnod y caiff y Rheoliadau hyn eu gwneud, a daw gweddill y darpariaethau i rym ar ddiwrnod cwblhau'r Cyfnod Gweithredu (11 p.m. ar 31 Rhagfyr 2020.)

Mae Rhannau 2, 3, a 4 o'r Offeryn yn cael eu gwneud drwy arfer y pwerau a roddwyd gan baragraffau 2(1), 3(1) a (2) a 4(1) a (2) o Atodlen 5 i Ddeddf Amaethyddiaeth 2004, a oedd yn destun gwaith craffu gan y Pwyllgor drwy broses y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol yn gynharach eleni.

Mae Rhannau 5 a 6 o'r Offeryn yn cael eu gwneud drwy arfer y pŵer a roddwyd gan baragraff 1 o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Mewn perthynas â Rhannau 5 a 6, mae'r gofyniad ym mharagraff 4(a) o Atodlen 2 i Ddeddf 2018, sy'n ymwneud ag ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol, wedi'i fodloni.



Gweithdrefn

Cadarnhaol drafft.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni all Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

Materion technegol: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.2(v) – ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud nifer o ddiwygiadau i gyfraith yr UE a ddargedwir, gan gynnwys hepgor darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i'r graddau y maent yn ymwneud â thaliadau uniongyrchol. Er bod rhai darpariaethau wedi'u hepgor, mae cyfeiriadau at rai o'r darpariaethau hynny sydd wedi'u hepgor yn parhau i fodoli yng nghyfraith yr UE a ddargedwir.

Mae'r darpariaethau perthnasol fel a ganlyn:

- Mae Rheoliad 2(12) o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliad (UE) Rhif 1306/2013 i hepgor Erthygl 77(6). Er bod Erthygl 77(6) wedi'i hepgor, mae cyfeiriad ati yn parhau i fodoli yn Erthygl 77(7)(a) o Reoliad (UE) Rhif 1306/2013.
- Mae Rheoliad 3(7) o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliad (UE) Rhif 640/2014 i hepgor Erthygl 10. Er bod Erthygl 10 wedi'i hepgor, mae cyfeiriad ati yn parhau i fodoli yn is-baragraff olaf Erthygl 9(1) o Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) Rhif 640/2014.
- Mae Rheoliad 3(8) o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) Rhif 640/2014 i hepgor yr ail is-baragraff ym mharagraff 1 o Erthygl 13. Mae hyn yn golygu bod y trydydd is-baragraff yn dod yn ail is-baragraff. Mae cyfeiriad at drydydd is-baragraff Erthygl 13(1) yn parhau i fodoli ym mharagraff (b) o Erthygl 12 o Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) Rhif 640/2014, er bod yr un cyfeiriad wedi'i ddisodli yn yr ail is-baragraff ym mharagraff 3 o Erthygl 13.
- Mae Rheoliad 4(7)(a) o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) Rhif 809/2014 i hepgor Erthygl 17(2). Er bod Erthygl 17(2) wedi'i hepgor, mae cyfeiriad ati yn parhau i fodoli yn ail is-baragraff Erthygl 36(2) o Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) Rhif 809/2014.

2. Rheol Sefydlog 21.2(v) – ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol



Mae Rheoliad 7(6)(c) o'r Rheoliadau hyn yn hepgor paragraffau 6 i 8 yn Erthygl 9 o Reoliad (UE) Rhif 1307/2013. Ar y diwrnod ymadael, cafodd paragraff 6 ei hepgor o Erthygl 9 o Reoliad (UE) Rhif 1307/2013, yn unol â Rheoliad 4(10)(f) o Reoliadau'r Rheolau ar gyfer Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Diwygio) 2020 (OS 2020/91).

Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Noder fod y Memorandwm Esboniadol yn egluro'r ffaith nad yw'r Rheoliadau hyn:

"yn gwneud newidiadau sylfaenol i'r trefniadau cyllid presennol ar gyfer cymorth amaethyddol ac na fyddant yn cael effaith sylweddol ar y sector cyhoeddus na'r sector preifat, ar elusennau na sectorau gwirfoddol."

Fodd bynnag, mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn egluro bod y Rheoliadau hyn yn "symleiddio dull gweinyddu'r cynllun", yn "dileu neu leihau'r beichiau ar bersonau sy'n gwneud cais am daliadau uniongyrchol o dan y cynllun", yn "gwella'r ffordd y mae'r cynllun yn gweithredu", ac yn "sicrhau bod sancsiynau a chosbau a osodir o dan y cynllun yn briodol a chymesur".

Mae'r Cod Ymarfer ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol yn cynnwys yr eithriad a ganlyn i'r drefn o gynnal asesiad effaith rheoleiddiol:

"Lle bo angen gwneud diwygiadau technegol neu ddiwygiadau ffeithiol er mwyn diweddarau rheoliadau ac ati nad ydynt yn effeithio'n fawr ar bolisi".

Er ei bod yn ymddangos bod yr eithriad hwn yn berthnasol i rai o'r diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn, ymddengys fod darpariaethau eraill, yn enwedig yng ngoleuni'r esboniad y cyfeirir ato uchod, yn golygu mwy na diwygiadau arferol neu ffeithiol. Nid yw'n glir bod unrhyw un o'r eithriadau eraill o dan y Cod yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

Gofynnir i Lywodraeth Cymru gadarnhau pa eithriad o dan y Cod sy'n berthnasol i'r penderfyniad i beidio â chynhyrchu asesiad effaith rheoleiddiol.

Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Ar y Diwrnod Ymadael, cafodd deddfwriaeth y UE sy'n llywodraethu cynlluniau taliadau uniongyrchol 2020 y Polisi Amaethyddol Cyffredin ei hymgorffori mewn cyfraith y DU drwy'r Ddeddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020. Roedd hyn yn angenrheidiol yn sgil y ffaith mai effaith Erthygl 137 o'r Cytundeb Ymadael oedd eithrio deddfwriaeth ar daliadau uniongyrchol ar gyfer blwyddyn hawlio 2020.



Mae'r Rheoliadau hyn yn sicrhau y gall y cynlluniau taliadau uniongyrchol presennol ar gyfer ffermwyr yng Nghymru barhau i weithredu'n effeithlon ac yn effeithiol y tu hwnt i flwyddyn hawlio 2020, sy'n para tan 31 Rhagfyr 2020.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Craffu Technegol

Pwynt 1

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno bod y cyfeiriadau y tynnwyd sylw atynt yn wallau drafftio. Bydd Llywodraeth Cymru yn cywiro'r rhain y tro nesaf y bydd cyfle addas yn codi.

Pwynt 2

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno bod paragraff 6 o Erthygl 9 o Reoliad (EU) Rhif 1307/2013 eisoes wedi ei hepgor gan Reoliadau Rheolau ar gyfer Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/91). Ar y sail hon, nid oes unrhyw effaith gyfreithiol i'r hepgoriad yn rheoliad 7(6)(c). Nid oes gan Lywodraeth Cymru bwerau i wneud rheoliadau brys o dan Ddeddf Amaethyddiaeth 2020, felly nid yw'n bosibl diwygio'r ddarpariaeth cyn diwedd y Cyfnod Gweithredu. Pe bai offeryn addas yn cael ei gyflwyno byddai Llywodraeth Cymru wedi diwygio'r offeryn, ond nid oes digon o amser i'w dynnu yn ôl a'i ddiwygio.

Craffu ar Rinweddau

Pwynt 3

Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod y newidiadau yn ddiwygiadau technegol arferol i weithrediad y cynllun sydd, er enghraifft, yn lleihau cymhwysiad sancsiynau neu gosbau, o gymharu â fersiynau'r UE o'r cynlluniau.

Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn gydag ymateb y Llywodraeth yn ei gyfarfod ar 14 Rhagfyr 2020 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod a nodwyd a hefyd i dynnu sylw at faterion sy'n codi o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE.

